



TAG UG/UWCH

2000N30-1



S23-2000N30-1

DYDD MERCHER, 24 MAI 2023 – PRYNHAWN

CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3
Defnyddio iaith, a Barddoniaeth
(Papur Ysgrifenedig)

2 awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).
Llyfryn 2000N30-1A, sy'n cynnwys y cerddi.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch y **ddau** gwestiwn.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb sy'n cael ei roi i chi..
Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.
Awgrymir eich bod yn treulio 45 munud ar Adran A ac 1 awr 15 munud ar Adran B.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ADRAN A

Defnyddio Iaith

1. Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

- (a) Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd:

amdanynt
gwelwyd
tra

[6]

- (b) Darllenwch y darn sydd yn y blwch isod ac atebwch gwestiynau (i) a (ii). Yn dilyn hynny, atebwch gwestiynau (iii)–(viii).

'Dyma nofel gelfydd, afaelgar sy'n ymwneud â pherthynas pobl â'i gilydd. Dychwelyd i'r **ddinas** lle cafodd ei magu a wna'r prif gymeriad a daw clymau'r gorffennol a'r presennol i'r wyneb gan achosi tensiwn. Sylweddolir ...'

- (i) Edrychwch ar y **gair** sydd mewn print trwm ac wedi ei danlinellu ac eglurwch yn llawn y rheswm pam mae'r gair hwn wedi'i dreiglo. [1]

- (ii) Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol yn y blwch uchod:

berf gryno yn dilyn rhagenw perthynol
berfenw

[2]

- (iii) Ailysgrifennwch y paragraff isod gan gywiro 3 ymadrodd gwallus:

'Er nad yw'r gân 'Cysgodion' mor gystal â'r gweddill, ceir amrywiaeth o arddulliau ac mae pethau'n edrych i fyny i'r grŵp. Mewn canlyniad dyma gryno ddisg addawol iawn.'

[3]

- (iv) Newidiwch y frawddeg ganlynol i'r **lluosog**.
A oeddet ti wedi archebu dy ddillad chwaraeon? [2]

- (v) Mae **dau** wall yn y frawddeg isod. **Lluniwch dair colofn**: yn gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro.

Anfonodd lythyr i'w rieni yn egluro fod dim ymarfer ar ôl ysgol yfory.

[4]

- (vi) Cysylltwch y brawddegau canlynol gan greu **un** frawddeg heb ddefnyddio'r cysylltair 'a':

Mae cylchgronau ar y silff. Nid oes neb byth yn darllen y cylchgronau.

[2]

- (vii) Pa fath o gymal sydd wedi ei danlinellu yn y frawddeg isod; cymal adferfol, cymal enwol neu gymal perthynol?

Erbyn i mi gyrraedd, roedd y siop wedi cau.

[1]

- (viii) Ailysgrifennwch 'Adroddiad Cymraeg' Siôn gan ei wneud yn un mwy amrywiol ei frawddegau. Gallwch newid trefn y sylwadau ac uno brawddegau, os dymunwch. Cewch gychwyn un frawddeg yn unig gyda 'Mae'.

Mae Siôn yn gallu siarad yn hyderus mewn grŵp. Mae'n cydweithio'n rhwydd ag eraill ac mae'n dangos sgiliau arwain naturiol. Mae Siôn wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn. Mae wedi dangos cynnydd ymhob agwedd o'i waith eleni yn sicr. Mae Siôn yn ddisgybl cydwybodol. Mae sgiliau darllen Siôn wedi datblygu ac mae ei allu i ysgrifennu'n greadigol hefyd. Mae angen i Siôn barhau i wirio ei fynegiant. [4]

[25]

ADRAN B

Barddoniaeth

2. Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

Wrth ateb, dylech gofio:

- defnyddio nifer digonol o gerddi (o leiaf dair cerdd) wrth ymateb i ofynion y cwestiwn
- dadansoddi arddull
- cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol
- defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Naill ai

- (a) Trafodwch y modd y **darlunnir cymdeithas** yn y cerddi a astudiwyd gennych o waith Ifor ap Glyn, Grahame Davies a Waldo Williams. Cymharwch **safbwyntiau'r** beirdd tuag at eu cymdeithas. Bydd angen i chwi gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull**. [40]

Neu

- (b) Mae Iwan Llwyd, Karen Owen a Menna Elfyn yn dangos **eu hymateb i ryfela a pharatoi at ryfel** yn eu cerddi. Trafodwch a chymharwch **safbwyntiau'r** beirdd yn eu cerddi. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull**. [40]

DIWEDD Y PAPUR



TAG UG/UWCH

2000N30-1A



S23-2000N30-1A

DYDD MERCHER, 24 MAI 2023 – PRYNHAWN

CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3

Llyfryn Cerddi

Preseli

Mur fy mebyd, Foel Drigarn, Carn Gyfrwy, Tal Mynydd,
 Wrth fy nghefn ym mhob annibyniaeth barn.
 A'm llawr o'r Witwg i'r Wern ac i lawr i'r Efail
 Lle tasgodd y gwreichion sydd yn hŷn na harn.

Ac ar glosydd, ar aelwydydd fy mhobl—
 Hil y gwynt a'r glaw a'r niwl a'r gelaets a'r grug,
 Yn ymgodymu â daear ac wybren ac yn cario
 Ac yn estyn yr haul i'r plant, o'u plyg.

Cof ac arwydd, medel ar lethr eu cymydog.
 Pedair gwanaf o'r ceirch yn cwmpo i'w cais,
 Ac un cwrs cyflym, ac wrth laesu eu cefnau
 Chwarddiad cawraidd i'r cwmwl, un llef pedwar llais.

Fy Nghymru, a bro brawdoliaeth, fy nghri, fy nghrefydd,
 Unig falm i fyd, ei chenhadaeth, ei her,
 Perl yr anfeidrol awr yn wystl gan amser,
 Gobaith yr yrfa faith ar y drofa fer.

Hon oedd fy ffenestr, y cynaeafu a'r cneifio.
 Mi welais drefn yn fy mhalas draw.
 Mae rhu, mae rhaib drwy'r fforest ddiffenestr.
 Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y ffynnon rhag y baw.

Waldo Williams

Beaufort, Blaenau Gwent, Mewn Gwyrdd

Mae capel Carmel wedi cau
 a boddi mae y beddau
 mewn môr o ddail tafol,
 tonnau emrallt yn addo storom
 rhwng ynysoedd y cerrig llonydd;
 a chwifio'n fyw mae meini'r meirw...

Yma mae'r Gymraeg yn llwyd,
 yn gen i gyd, angerdd angof
 ganrif a hanner yn ôl
 yn naddion ar y meini,
 sy'n nofio fel cyrcs
 ar gerrynt y gwyrddni.

Rhythu drostynt mae ffenestri Carmel,
 llygaid briw sy'n llawn brain
 mewn siwtiau syber,
 yn gwâdd brain eraill
 at nythfa'r gwatwarwyr,
 a'u crawcian yn darogan glaw...

Yna'n ddisymwth, daw'r storom
 i'm hysgwyd o'm sentimentaleiddio;
 tu ôl i'r penglog rhwth o gapel
 mae festri'r cefn dal ar waith,
 ac mae'i ddrws yn clepio'n 'gored
 gan chwythu coetsus a welingtons
 yn gawod o liw rhwng meini'r meirw.
 Mae'n bwrw'n gynt ac yn gynt,
 ond deuant o hyd, yn bonchos dayglo,
 eu traed bach yn daranau,
 eu lleisiau'n diasbedain rhwng y beddau,
 a'u Cymraeg Ysgol Feithrin fel mellit yn y llwydwyll... !

Mae'r meirw a'r heniaith yn bwydo'r tir
 ac mae'r iaith yn wyrdd, fel y fynwent ir...

Ifor ap Glyn

DIY

Mae angen gwaith ar Neuadd y Gweithwyr,
 mae chwyn yn tyfu yng ngraciau ei chrandrwydd;
 a llechi'r to wedi'u dwyn —
 llechi adeiladau gwag
 yw un o adnoddau naturiol ola'r cwm.

Neuadd, capel, clwb;
 hanfodion cymdeithas unwaith,
 yn gregyn, yn amgueddfeydd heb ymwelwyr;
 fel hen bobl a'u plant wedi'u gadael.
 Nid oes gan y gymuned bellach ddigon o'u hangen
 i'w cynnal a'u cadw.

Er bod digon o gynnal a chadw'n digwydd yn y cwm.
 Mae cannoedd wrthi â morthwyl a llif bob dydd,
 ond pawb-drosto'i-hun yw hi bellach;
 nid cyd-ddyheu sy'n codi estyniad,
 newid cegin, codi siêd.

Y siopau DIY yw canolfannau newydd
 ein hunigoliaeth;
 treuliwn oriau o'n hamdden
 yn y neuaddau gyrion-tre'
 yn prowla fesul un, fesul dau,
 hyd ddrysfa o ddewisiadau
 a'n byd ar chwâl yn fil o ddarnau bychain
 mewn blychau o'n cwmpas,
 fel cyrbibion gwareiddiad.

Dygwn y darnau adref
 i breifatrwydd unig ein tai,
 ac, â hoelion a glud,
 fe geisiwn eu cyfannu.

Â gwe cyd-fyw yn gwanhau,
 mae pob dim yn DIY.

Grahame Davies

Sul y Mamau yn Greenham, 1984

Cerdd hir o allgaredd yw.
Bwrw eira a dynion glas a gwyrdd,
brwydro yn erbyn y symbylau
a chwaeroliaeth yn chwarae â than,
yn creu anheddau
o brennau a blancedi.

Ac o'n blaen Y Ffens.

Hon yw'r ffordd newydd,
y cynfyd a'r creu
a'n dwylo ar wifren
yn ei thyneru;
chwarae tŷ bach
mewn cylch.

Sgwrsio a chanu,
creu a chrïo,
cadw tŷ di-do.

Saffrwm yn codi;

cennin Pedr o Gymru'n blodeuo
o dan draed,
sgarmesoedd ganol nos,
eiddo'n sarn.

Cychwyn eto fory,
mwy'n cyrraedd,
codi calon.

Cerdd a allai fynd ymlaen drwy'n bywyd ydi hon
a wnaeth neb mo'i sgwennu,
perthyn i bawb 'wna
fel y comin
ar erchwyn y didangnef
yn Greenham.

Menna Elfyn

Aneirin

Gyda'th gamera a'th helmed
disgynaist o'r hofrennydd,
prin filltir o'r frwydr,

yna'i gwadnu hi'n dy gwrcwd
am y lloches agosaf, a'r ergydion
yn ffrwydro'n yfflon o'th gwmpas:

heibio i sgerbydau llosg y tanciau
a lludw'r cyrff gwag, y milwyr briwiedig
a'r cig amrwd a fwydai frain,

baglaist a syrthiaist drwy'r mwd,
gan godi weithiau i dynnu llun
dyn yn lladd mewn lliw:

mewn du a gwyn,
yng Nghatraeth a Kampucea,
y Somme a'r Chwe Sir,

megaist gyfaredd a chyfarwyddyd,
a heidiai'r hogia i ateb dy gwestiynau
a dilyn â'u llygaid ragluniau'r lens:

rhoddaist iddynt fri a oroesai frwydr
a chip ar dragwyddoldeb
yn awen ddi-duedd y newyddiadurwr.

Iwan Llwyd

Cân y Milwr

Daeth gorchymyn dyrchafiad o Lundain un dydd,
 mewn amlen â'r stamp mwya' swyddogol sydd,
 a'r lliith yn dweud 'Helmand' yn rhwyddach na rhydd:
 i Affganistàn.

Rhag ofn y dôl dagrau, gallai ddweud wrth ei fam
 na châi ei mab 'fenga un gofal o gam,
 dim ond iddo lyncu y pwy, sut a'r pam
 am Affganistàn.

Câi ofyn am helmed i warchod ei ben, câi
 fynnu cysgodfan rhag bomiau o'r nen,
 a châi ddewis ei arch – un o garbôrd neu bren –
 o Affganistàn.

Yn ei sgidiau blaen haearn, yn wadnau o ddrud,
 a'i fenig asbestos, yn fysedd i gyd,
 fe'i lladdwyd. Mae'n gorwedd dan guddliw y byd
 yn Affganistàn.

Tra'i cludir o adre', fel bwled trwy'r gwynt,
 bydd llond dwy awyren yn teithio ynghynt
 trwy waed awyr arall, ar Helmand o hynt:
 i Affganistàn.

Karen Owen

TUDALEN WAG

TUDALEN WAG



TAG UG/UWCH

2000N30-1B



S23-2000N30-1B

DYDD MERCHER, 24 MAI 2023 – PRYNHAWN

CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3

Defnyddio iaith, a Barddoniaeth

(Papur Ysgrifenedig)

2 awr

Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau. Clawr blaen y papur arholiad yn unig yw'r daflen hon.

For the attention of the Examinations Officer.

This is the front cover of the examination paper only.

English version overleaf.

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad 2000N30-1 a'r Llyfryn Cerddi 2000N30-1A, bydd angen llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc) arnoch chi.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb sy'n cael ei roi i chi.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **45 munud** ar Adran A ac **1 awr 15 munud** ar Adran B.

Dylech dreulio **15 munud** yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

Ni allwch ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi ei nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.



GCE AS

2000N30-1B



S23-2000N30-1B

WEDNESDAY, 24 MAY 2023 – AFTERNOON

WELSH: FIRST LANGUAGE – AS unit 3

Use of Language, and Poetry

(Written Examination)

2 hours

For the attention of the Examinations Officer. This is the front cover of the examination paper only.

ADDITIONAL MATERIALS

In addition to the examination paper 2000N30-1 and 2000N30-1A – copy of the poems, you will need a WJEC pink 16-page answer booklet.

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

Use black ink or black ball-point pen.

*Answer the **two** questions.*

Write your answers in the separate answer booklet provided.

Where it is necessary to express your opinions you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.

You are reminded that assessment will take into account the quality of written communication in your answers.

*You are advised to spend **45 minutes** on Section A and **1 hour 15 minutes** on Section B.*

*You should spend **15 minutes** planning your essay in Section B.*

You cannot use dictionaries in this examination.

INFORMATION FOR CANDIDATES

The number of marks available is specified in brackets at the end of each question or part-question.